

Hawliau sylfaenol i denantiaid y SRhP

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i chi am eich hawliau fel tenant i landlord preifat. Crëir y daflen ffeithiau hon gan TPAS Cymru mewn partneriaeth â 6 Awdurdod Lleol. (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a Gwynedd).

Rydym wedi creu'r daflen ffeithiau hon ar ôl i denantiaid wneud cais am daflen ffeithiau sy'n ymdrin â hawliau sylfaenol tenantiaid y SRhP

Dyma rai hawliau sylfaenol sydd gan bob tenant rhentu preifat:

- Dylai pob tenant preifat gael Contract Meddiannu ysgrifenedig gan eu landlord erbyn Mehefin 2023. Gall y Contract hwn fod yn allbrint neu'n cael ei anfon ar-lein. Bydd y Contract ysgrifenedig hwn yn dweud wrthyhych am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau, a'r hyn y gall ac na all y landlord ei wneud. Dylech lofnodi'r contract os ydych yn fodlon ar bopeth sydd ynddo.
- Os nad ydych wedi cael Contract Meddiannaeth gan eich landlord dylech gysylltu â'ch Cyngor Lleol am ragor o wybodaeth.
- Rhaid i landlordiaid wneud yn siŵr bod eich cartref yn ffit i fyw ynddo e.e. gosod larwm mwg; bod y trydan yn ddiogel.
- Os yw eich landlord am i chi adael ei eiddo, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i chi i wneud hynny.
- Ni all eich Landlord ofyn i chi adael oherwydd eich bod wedi cwyno bod eich cartref mewn cyflwr gwael. Rhaid i chi roi gwybod i'ch landlord am unrhyw atgyweiriadau

I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldeb landlord i sicrhau bod cartref yn 'addas i'r diben', gweler y wybodaeth ganlynol gan Lywodraeth Cymru: <https://bit.ly/3usNsJm>

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel tenant o dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi newydd ar gael ar dudalennau gwe Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru/rhentucartrefi) neu cysylltwch â'ch landlord am ragor o wybodaeth



Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'ch hawliau trwy glicio yma - <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-02/cyfraith-tai-yn-newid-hawdd-ei-ddeall.pdf>



Dylai'r ddogfen hon fod wedi cael ei rhoi i chi gan eich landlord ar ddechrau eich tenantiaeth. Mae'n rhoi trosolwg o'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau fel tenant yng Nghymru. I'w ddarllen ar-lein, cliciwch [yma](https://rentsmart.gov.wales/Uploads/Downloads/00/00/01/84/DownloadFile_EN_FILE/TenantsGuideEN_06.23.pdf) - https://rentsmart.gov.wales/Uploads/Downloads/00/00/01/84/DownloadFile_EN_FILE/TenantsGuideEN_06.23.pdf



Rent Smart Wales Tenant Checklist

Mae'r 'Rhestr Wirio Tenantiaid' hon yn darparu rhestr wirio dda i denantiaid fynd drwyddi. I weld y rhestr wirio, cliciwch yma. - <https://bit.ly/40UBnch>

Sefydliadau a all helpu Tenantiaid Preifat

Wyddech chi fod yna bobl yn gweithio yn eich Cyngor Sir Lleol (Awdurdod Lleol) a all eich cefnogi a rhoi cyngor i chi os ydych yn denant preifat? Maen nhw eisiau clywed gan denantiaid preifat. Dyma rifau ffôn y Cyngorau Sir (Awdurdodau Lleol) yng ngogledd Cymru:

- Sir y Fflint: 01352 703777
- Conwy: (rhif presennol) 0300 124 0050 / (Rhif o Ragfyr 2023) 0300 456 9545
- Sir Ddinbych: 01824 708367
- Ynys Môn: 01248 752217.
- Wrecsam: 01978 292000
- Gwynedd: 01766 771000 (Gofynnwch am y tîm Tai Sector Preifat)

Dyma ychydig o fanylion cyswllt sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i denantiaid sy'n rhentu gan landlord preifat.



Shelter Cymru:

Gwefan: <https://sheltercymru.org.uk/get-help/>

Llinell gymorth frys: [08000 495 495](tel:08000495495) (Mae'r llinell gymorth ar agor 9am - 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Webchat: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/webchat/>

Cyngor ar Bopeth Lleol

Cynnig cyngor ar fudd-daliadau a dyled, yn bennaf ar y ffôn, weithiau cymorth gwaith achos: ond maent yn brysur iawn ar hyn o bryd. Bydd angen i chi gysylltu â Chyngor ar Bopeth yn eich ardal eich hun.

Gwefan: <https://bit.ly/2FIpoZ7>



Local Citizens Advice

cyngor ar
bopeth

citizens
advice

Ffôn:

- 0808 278 7923 - Sir y Fflint
- 0808 278 7933 - Sir Ddinbych
- 0808 278 7922 - Gwynedd
- 0808 278 7932 - Ynys Môn
- 0300 330 1178 - Wrecsam
- 01745 828705 - Conwy

Ebost:

- rhyl@dcab.co.uk
- denbigh@dcab.co.uk
- advicecyngor@caconwy.org.uk
- AngleseyCA@gmail.com



Rhentu Doeth Cymru

Rhaid i Landlordiaid Preifat yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Mae RhDC yn cefnogi landlordiaid neu asiantaethau gosod tai i gydymffurfio â chyfreithiau a pholisïau tai. Gallwch sicrhau bod eich landlord wedi'i gofrestru fel landlord a dysgu mwy am eich hawliau a'ch rhwymedigaethau fel tenantiaid trwy wefan RhDC.

Gwefan: <https://rentsmart.gov.wales/en/tenant/>

Ffôn: 03000 133344